## Tasg 2

# Hamdden yn y dyfodol

Mae Lyn yn dechrau ei llythyr drwy ddweud:

> Mae'r arbenigwyr yn dweud bod ein harferion hamdden ni'n newid ac y byddan nhw'n newid eto yn y dyfodol.

1. Sut mae arferion hamdden pobl wedi newid dros y blynyddoedd?

   Trafodwch hyn mewn grŵp a gwnewch nodiadau.

   Yna, cymharwch syniadau'r gwahanol grwpiau.

2. Beth fydd pobl yn ei wneud yn eu hamser hamdden yn y dyfodol, yn eich barn chi?

   Trafodwch hyn mewn grŵp a gwnewch nodiadau.

   Yna, cymharwch syniadau'r gwahanol grwpiau.

3. Mae cylchgrawn technoleg yn gofyn i bobl ifanc ysgrifennu am beth maen nhw'n meddwl bydd pobl yn ei wneud yn eu hamser hamdden yn y dyfodol.

   Ysgrifennwch ddarn ar gyfer y cylchgrawn. Defnyddiwch y syniadau rydych chi wedi eu trafod yn 2. uchod.